

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg Tai Wales & West (WWH) gan y Bwrdd ym mis Medi 2010 ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (BIG) ym mis Rhagfyr 2010.

Mae gofyn cyflwyno diweddariad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg (CyG), a ddisodlodd BIG yn 2012. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Chwefror 2020.

Sgiliau Cymraeg

Ar hyn o bryd, mae'r Gymdeithas yn cynnwys 175 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, y mae lefel eu rhuglder yn amrywio. Mae'r Gymraeg yn famiaith dros 50 o'r staff.

Mae pob aelod o staff wedi cwblhau hunanasesiad o'u sgiliau Cymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Cesglir gwybodaeth am lefelau rhuglder cyflogeion newydd fel rhan o'u harchwiliadau cyn sicrhau cyflogaeth. Cofnodwyd sgiliau llafar ac ysgrifenedig ar wahân ar system AD y Gymdeithas, Cascade. Trwy gasglu'r data mewn porth canolog, gall staff ddiweddarau lefelau rhuglder wrth iddynt newid. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo i adnabod staff sy'n hyderus neu sy'n gallu cynorthwyo mewn ffyrdd ymarferol megis cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd.

Yn ogystal, ceir sawl aelod o'r Bwrdd y mae eu sgiliau Cymraeg yn amrywio.

Hyfforddiant yr Iaith Gymraeg

Mae 26 aelod o staff, gan gynnwys Prif Weithredwr y Grŵp (PWG), wedi bod yn dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae dau o'r rhain wedi bod yn mynychu dosbarthiadau nos ac mae'r gweddill yn parhau i ddefnyddio adnoddau amrywiol, gan gynnwys 'Say Something in Welsh', ac maent wedi bod yn mynychu cyrsiau dwys ac yn astudio apiau a llyfrau. Llwyddodd y ddau aelod o staff sy'n mynychu dosbarthiadau nos i basio eu harholiad lefel mynediad ac maent wedi symud ymlaen i lefel Sylfaen.

Mae sawl aelod o'r Bwrdd yn dysgu Cymraeg hefyd, trwy gyfrwng cymysgedd o ddosbarthiadau, apiau a chyfryngau eraill, ac mae dau aelod o'r Bwrdd wedi cofrestru ar 'Say Something in Welsh'.

Mae WWH wedi cynorthwyo'r broses o ddysgu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg trwy gyfrwng ap ar-lein. Yn ystod 2018-19, ymunodd 23 o ddysgwyr newydd a phresennol â'r peilot chwe mis, 'Say Something in Welsh'. Mae'r cwrs iaith ar-lein, sy'n addo y bydd pob dysgwr ymroddedig yn siaradwyr Cymraeg hyderus ymhen chwe mis, yn cynnwys tasgau ar-lein wythnosol a galwadau fideo ar gyfer grwpiau. Cychwynnodd y peilot ym mis Awst 2018 ac fe'i ariannwyd gan WWH. O blith y 23:

- Llwyddodd 6 aelod o staff i gwblhau'r dewis 6 mis, mae 4 o'r rhain wedi cofrestru ar y cwrs dilynol 12 mis, 'In at the Deep End' a deunydd dysgu estynedig;

- roedd 9 aelod o staff wedi ymestyn eu dysgu trwy ddewis darpariaeth 12 mis; ac
- roedd 8 aelod o staff wedi dewis peidio parhau.

Mae'r adborth gan y chwe unigolyn a gwblhaodd y cwrs wedi bod yn gadarnhaol, wrth i'r mwyafrif nodi bod y dull dysgu yn addas i'r arddull dysgu y maent yn ei ffafrio. Roedd y bobl a gwblhaodd hunanasesiad o lefel eu hyder yn y Gymraeg cyn cychwyn ar y dysgu ac yn ystod y cyfnod dysgu, wedi adrodd am gynnydd sylweddol yn lefel eu hyder. Ar 13 Chwefror 2020, lanswyd ail rownd yr hyfforddiant. Mae unigolion wedi mynegi diddordeb a bydd y dysgu yn cychwyn yn ystod 2020.

Er mwyn hyrwyddo gweithle dwyieithog, rhoddir sylw amlwg o hyd i deilsen 'Dysgu Cymraeg' ar dudalen flaen y fewnwyd, ac ar ôl troi ati, mae'n darparu manylion yr holl gyfleoedd dysgu sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am 'Say Something in Welsh'. Yn ogystal, mae'n darparu manylion yr holl siaradwyr Cymraeg yn y Gymdeithas, sy'n cynorthwyo gyda gweithgarwch monitro anffurfiol, adnoddau defnyddiol, dyddiadau a manylion digwyddiadau Cymraeg mewnol a diwylliannol, ymadrodd yr wythnos, templed dwyieithog ar gyfer negeseuon e-bost i'r rhai nad ydynt yn y swyddfa, a gweithgareddau a chyfleoedd i gynorthwyo a chynyddu lefelau hyder yn y Gymraeg.

Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

Bu sawl achos lle yr hyrwyddwyd y Gymraeg, gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi, ciniawau Cymraeg yn y dair swyddfa gan ddefnyddio cyswllt fideo, cyhoeddiadau er mwyn hyrwyddo a dathlu Santes Dwynwen a Diwrnod "Shwmae Su'mae" – digwyddiad cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ogystal, cynhaliwyd cystadleuaeth goginio trwy gyfrwng y Gymraeg, lluniwyd posteri yn dangos ffeithiau a gwybodaeth am draddodiadau a hanes Cymru, yn ogystal â sawl achos lle y mae deunydd dwyieithog wedi cael ei baratoi, megis deunydd briffio misol PWG ar gyfer yr holl staff, yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r deunyddiau a gyflwynir mewn cyfarfodydd a chynadleddau staff.

Hyrwyddwyd y Gymraeg yn y ffyrdd canlynol hefyd:

- Hyrwyddwyd gwasanaethau Cymraeg trwy ddefnyddio brand Iaith Gwaith, sy'n dynodi'r rhai sy'n siarad Cymraeg. Caiff y testun ar waelod negeseuon e-bost sy'n dangos y croesawir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ei gynnwys mewn negeseuon e-bost allanol yr holl rai sy'n siarad Cymraeg. Yn ogystal, cynigir bathodynau a laniardiau Iaith Gwaith i'r holl staff sy'n dysgu neu sy'n rhugl, er mwyn i bobl eu hadnabod a gallu cychwyn sgwrs gyda nhw yn Gymraeg.
- Deunydd briffio dwyieithog gan PWG sy'n cynnig diweddariadau o bryd i'w gilydd am newidiadau a datblygiadau deddfwriaethol, y gallent effeithio ar y ffordd y mae'r Gymdeithas yn darparu gwasanaethau yn fewnol ac yn allanol.
- Ymrwymwyd i bartneriaeth gyda'r Fenter Iaith yng Ngorllewin Sir Gaerfyrddin er mwyn dosbarthu eu 'Pecyn Croeso', sef cyfeiriadur i breswylwyr newydd yn Sir Gaerfyrddin ynghylch dysgu Cymraeg.

- Ymrwymwyd i bartneriaeth gyda'r Fenter Iaith yn Sir Benfro er mwyn cynorthwyo wrth gynnig darpariaeth gofal plant tra y cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant i breswylwyr yn ystod y gwyliau hanner tymor. Mae hyn yn hyrwyddo'r gwaith a gyflawnir gan y Fenter Iaith.
- Yn ystod y cyfnod adrodd, noddodd y Gymdeithas nifer o grwpiau a digwyddiadau, lle y gwariwyd bron i £19,000 at ei gilydd, er mwyn cynorthwyo wrth ddarparu ac er mwyn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg:-
 - Noddwyd y Clwb Miliwn, a nodau'r prosiect hwn yw cefnogi nod Llywodraeth Cymru (LIC) o sicrhau 'Miliwn o Siaradwyr' trwy annog twf ar lawr gwlad, gan gynorthwyo ymdrechion grwpiau cymunedol i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a chynorthwyo cyfathrebu wyneb yn wyneb, cynnig cyngor ymarferol er mwyn caniatáu i unigolion a grwpiau gymryd camau cadarnhaol yn lleol a chreu cronfa ariannol a gweinyddu grantiau bach er mwyn cefnogi'r weledigaeth i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau lleol.
 - Noddwyd sawl Cylch Meithrin, trwy gynorthwyo i dalu eu costau rhedeg, talu am offer a chynnal digwyddiadau codi arian, ac mae hyn oll yn cynorthwyo'r gwasanaeth ac yn darparu gofal i blant trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein cymunedau.
 - Noddwyd digwyddiad Tregaroc, Gŵyl Gerddorol yn Nhregaron, Ceredigion. Mae Tregaroc yn cynnig cyfle i berfformwyr cerddorol lleol i hyrwyddo adloniant Cymraeg a lleol, sy'n cynorthwyo wrth addysgu ac ysbrydoli pobl
 - Ymrwymwyd i bartneriaeth gyda Menter Iaith Gorllewin Sir Gaerfyrddin, trwy noddi Gŵyl Canol Dre yng Nghaerfyrddin, sydd wedi ennill gwobrau.

Cyfathrebu yn Gymraeg

Mae nifer fach (76) o breswylwyr wedi nodi eu bod yn dymuno cyfathrebu gyda'r Gymdeithas trwy gyfrwng y Gymraeg, ac maent wedi nodi eu dewisiadau mewn perthynas â chyfathrebu ysgrifenedig, ar lafar neu'r ddau. Yn ogystal, mae 1,077 o breswylwyr yn cael copïau dwyieithog o In Touch.

Cesglir gwybodaeth o hyd am ddewis iaith fel rhan o weithgarwch proffilio preswylwyr. Cedwir data ynghylch dewis iaith 72% o breswylwyr, ac mae modd i'r staff ddiweddarau hwn yn hawdd trwy gyfrwng Resco, yr ap ar gyfer gwneud gwaith symudol, neu gellir ei ddiweddarau'n uniongyrchol yng nghronfa ddata Dynamics. Mae dewis iaith ar gael i'r holl staff ei weld, a bydd gohebiaeth gan WWH yn cael ei hanfon yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â'r hyn a nodwyd gan y preswlydd lle y casglwyd manylion am eu dewis iaith. Mae'r ohebiaeth a anfonir yn y Gorllewin yn ddwyieithog, a bydd hyn yn parhau nes y caiff gwybodaeth lawn ynghylch dewis iaith ei sicrhau ar gyfer y preswylwyr hyn.

Mae WWH yn parhau i groesawu galwadau a chyfathrebu yn Gymraeg. Pan fydd pobl yn ffonio prif rif ffôn WWH, bydd y neges gyntaf yn cynnig dewis iaith i bobl. Caiff pob galwad a wneir yn ystod oriau swyddfa ac sy'n dewis y Gymraeg, eu cyfeirio at swyddogion y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Mae cyfanswm y galwadau sy'n

gofyn am wasanaeth yn Gymraeg wedi gostwng o 1,766 ym mis Ebrill 2018 i 1,106 ym mis Mawrth 2019. Mae 0.95% o'r holl alwadau a wneir yn ystod oriau swyddfa yn rhai Cymraeg.

Mae WWH yn manteisio ar wasanaeth cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol ac yn defnyddio staff dynodedig sy'n ymateb ac yn blaenoriaethu unrhyw waith yn unol ag anghenion y Gymdeithas. Cyflawnir yr holl waith prawfddarllen yn fewnol a chan wahanol gyfieithydd er mwyn sicrhau barn annibynnol, ac mae hyn yn sicrhau bod pob darn o waith yn gyson ac y defnyddir terminoleg safonol. Cyflwynwyd y weithdrefn gyfieithu ar ôl y cyhoeddwyd dogfen gyngor CyG, 'Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb'. Rhoddwyd gwybodaeth am y weithdrefn newydd yn nodyn briffio PWG ac mae ar gael ar fewnrwyd y staff.

Mae gwefan WWH yn hollol ddwyieithog ac yn addas i'w defnyddio ar declynnau symudol. Rhwng mis Ebrill 2019 ac 1 Chwefror 2020, mae'r fersiwn Saesneg wedi cael ei weld gan ymwelwyr allanol 83,269 gwaith ac mae'r fersiwn Cymraeg wedi cael ei weld 1,559 gwaith, ac mae 115 o ddefnyddwyr wedi edrych ar y wefan trwy borwr gwe Cymraeg. Mae dogfen Cynllun yr Iaith Gymraeg ac adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gael ar y wefan. Yn ogystal, mae'r Gymdeithas yn defnyddio sawl platfform cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook, Instagram a Twitter er mwyn rhannu negeseuon corfforaethol, newyddion a swyddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cwblhawyd adolygiad o wefan Mentrau Castell a Chynnal a Chadw Cambria (is-gwmnïau), a bydd y gwaith o greu fersiynau dwyieithog o'r gwefannau hyn yn cychwyn yn ystod 2020.

Mae'r protocolau mewnol ac allanol am yr iaith Gymraeg wedi bod mewn grym er mis Medi 2017. Adolygwyd yr holl arferion mewnol ac allanol, gan gynnwys yr archwiliad sgiliau a dewis iaith, recriwtio a gweithdrefnau a dogfennaeth sy'n ymwneud ag AD, yn ystod 2019. Fel rhan o'r adolygiad, mae'r holl ymatebion awtomatig i negeseuon e-bost grŵp/tîm yn ddwyieithog erbyn hyn. Mae'r protocolau sydd ar gael ar fewnrwyd y staff yn cynnig canllawiau am y ffordd y mae WWH yn darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn fewnol ac yn allanol. Mae'r protocolau yn datblygu'r Cynllun Iaith Gymraeg a gymeradwywyd, a gwneir mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau mewnol ac allanol. Mae'r holl arwyddion yn swyddfeydd WWH yn ddwyieithog.

Yn dilyn adolygiad o'r rhestr gyfeirio hunan-reoleiddio a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan CyG, mae nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag yn ystod y flwyddyn adrodd wedi cael eu cynnwys yn niweddariad blynyddol 2019. Yn ystod mis Ebrill 2019 a mis Chwefror 2020, hysbysebwyd 61 o swyddi newydd neu swyddi gwag, a hysbysebwyd pob un o'r rhain yn ddwyieithog. Roedd pob un yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ym mhroffiliau'r rolau, ac nid oedd unrhyw rolau yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys gofyniad penodol ynghylch yr iaith Gymraeg.

Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod.

13 Mawrth 2020